Gwneud Lle i Bioamrywiaeth

Ar ôl dinistrio cynefin, rhywogaethau ymledol nad ydynt yn gynhenid yw'r bygythiad mwyaf difrifol i fioamrywiaeth byd-eang. Mae llawer o blanhigion yn cael eu cyflwyno yma o wledydd eraill am eu bod yn gwneud ein gerddi'n fwy hardd drwy'r flwyddyn. O'n gerddi, maent yn treiddio i mewn i fywyd gwyllt ac weithiau gallant gael effaith negyddol iawn ar rywogaethau cynhenid. Mae 1,402 o blanhigion nad ydynt yn gynhenid wedi eu sefydlu ym mywyd gwyllt Prydain Fawr, a nodir bod 108 (8%) yn cael effaith negyddol.

Daw'r broblem pan fydd y rhywogaethau hyn yn cystadlu gyda rhywogaethau sydd i'w cael yn y DU yn naturiol. Os yw'r aflonyddwr yn ennill y gystadleuaeth, yna mae ein rhywogaethau cynhenid yn cael eu dileu o'r ardal honno. Ond nid oes unrhyw reolau yn y gystadleuaeth hon sydd yn dweud na all ein rhywogaethau cynhenid gael cymorth!

Eich her yw:

1: Ymchwilio i rywogaethau ymledol nad ydynt yn gynhenid a cheisio gweld a oes rhai yn eich ysgol neu gymuned. Mae rhai yn hawdd i'w hadnabod, fel Himalayan Balsam, ond gall rhai fod yn eithaf anodd.

2: Rhannwch eich canfyddiadau gyda disgyblion, staff a rhieni fel bod pawb yn deall y broblem.

3: Trefnwch ddigwyddiad 'trechu ymledwyr', ar y cyd â swyddog prosiect lleol Cadwch Gymru'n Daclus. Gall Chwalu Balsam yn yr haf a'r hydref fod yn hwyl yn ogystal â gwneud rhywbeth pwysig. Mae canllawiau caeth ar gyfer gwaredu rhai o'r rhywogaethau ymledol felly gwnewch yn siŵr eich bod yn cysylltu â'ch swyddog prosiect lleol am gymorth.

Mae mwy o wybodaeth yn https://www.rhs.org.uk/advice/profile?pid=530

Rhowch wybod i ni os ydych chi'n cymryd rhan mewn her drwy e-bostio eco-schools@keepwalestidy.cymru neu drydar @EcoSchoolsWales

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government